

Mae eich hunaniaeth fel jig-so.



Rhowch y darnau at ei gilydd
a gallwch weld y darlun llawn.



www.getsafeonline.org

Pam y mae diogelu eich hunaniaeth mor bwysig?



Eich hunaniaeth yw un o'r pethau pwysicaf sy'n eiddo i chi. Mae'n eich helpu i brofi mai chi ydych chi, mae'n eich galluogi i gadarnhau eich oedran ar-lein neu yn y dafarn, gwneud cais am drwydded yrru neu fenthyciad, cael contract ar gyfer ffôn symudol neu basbort, a llawer mwy.

Felly, pan fydd seiberdroseddwr yn dwyn eich hunaniaeth, gall wneud yr holl bethau hyn yn eich enw chi hefyd – ynghyd â'i werthu i droseddwyr eraill, a hyd yn oed cyflawni troseddau yn eich enw.

Fel arfer, bydd lladron hunaniaeth yn gweithio ar-lein, gan chwilio am ddarnau o wybodaeth am eich bywyd mewn postiau a phroffiliau ar y cyfryngau cymdeithasol, a chyfrifon e-bost heb eu diogelu. Maent yn manteisio ar y ffaith bod pobl yn hoffi rhannu gwybodaeth bersonol â'u ffrindiau ar-lein – ac y gallant fod yn esgeulus o ran diogelwch. Yn yr un modd, gall y lladron hunaniaeth ddod o hyd i wybodaeth gyfrinachol, megis rhifau Yswiriant Gwladol a rhifau cyfrif banc ar ddogfennau a daflwyd i'r sbwriel heb gael eu rhwygo'n stribedi mân.


Dim ond ychydig o'r darnau hyn fydd eu hangen arnynt i ddwyn eich hunaniaeth yn llwyddiannus a chreu trafferthion mawr i chi.

#ProtectYourID



Mae gennym awgrymiadau arbenigol i'ch helpu i ddiogelu eich hunaniaeth.

- **Peidiwch byth â rhannu** manylion eich cyfrif banc nac unrhyw wybodaeth rydych yn ei defnyddio i brofi eich hunaniaeth â'ch ffrindiau, eich teulu na phobl eraill.
- **Ystyriwch beth rydych yn ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol**, megis eich dyddiad geni ac aelodau o'ch teulu neu enwau anifeiliaid anwes rydych hefyd yn eu defnyddio yn eich cyfrineiriau. Peidiwch â rhannu manylion na delweddau o'ch trwydded yrru, eich pasbort, eich rhif Yswiriant Gwladol nac eitemau cyfrinachol eraill.
- **Peidiwch byth â datgelu data gwybodaeth breifat** mewn ymateb i neges e-bost, neges destun, llythyr, galwad ffôn na ffurflen we. Ffoniwch i gadarnhau, gan ddefnyddio rhif rydych yn gwybod ei fod yn gywir.
- **Gosodwch y feddalwedd, yr apiau a'r system weithredu** ddiweddaraf ar eich cyfrifiadur a'ch dyfeisiau symudol, a sicrhewch eich bod yn eu **diweddarau**. Neu'n well fyth, beth am eu gosod i ddiweddarau'n awtomatig?
- **Gwnewch yn siŵr bod pob un o'ch cyfrineiriau yn gryf**, a chadwch bob un ohonynt yn ddiogel. Ceisiwch ddefnyddio tri gair ar hap, gyda phriflythrennau a llythrennau bach, rhifau a symbolau. Peidiwch â defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer mwy nag un cyfrif.
- **Defnyddiwch gyfrinair cryf ac unigryw** ar gyfer eich cyfrifon e-bost.
- **Peidiwch â chysylltu â phoethfannau Wi-Fi cyhoeddus** wrth wneud unrhyw beth cyfrinachol. Mae'n bosibl nad ydynt yn ddiogel a gallant fod yn dwyllodrus.
- **Byddwch yn ymwybodol o bobl yn edrych dros eich ysgwydd bob amser** pan fyddwch yn cofnodi gwybodaeth breifat ar gyfrifiadur, dyfais symudol neu beiriant ATM.
- **Gwnewch drefniadau i gael biliau a chyfriflenni di-bapur** yn hytrach na rhai wedi'u hargraffu.
- **Ffeiliwch ddogfennau sensitif yn ddiogel**, a dinistrio'r rhai nad oes eu hangen arnoch mwyach – gyda pheiriant rhwygo 'cross-cut' yn ddefnyddol.
- **Cofiwch gael adroddiadau gwirio credyd yn rheolaidd** i gadarnhau nad oes neb wedi benthg yrian yn eich enw.



Get Safe Online

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chyngor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth nid er elw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd wedi'i chefnogi gan nifer o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch y rhyngwrwyd, bancio a manwerthu.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor diduedd arbenigol sy'n hawdd ei ddilyn ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i www.getsafeonline.org

Os byddwch yn credu eich bod wedi cael eich twyllo ar-lein, rhowch wybod i Action Fraud, sef canolfan genedlaethol y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu, drwy ffonio **0300 123 20 40** neu drwy fynd i'r wefan www.actionfraud.police.uk

Yn yr Alban, gallwch roi gwybod am dwyll i Heddlu'r Alban drwy ffonio 101.



www.getsafeonline.org

OFFICIAL PARTNERS

TESCO

kaspersky

Gumtree

Standard Life

first direct

M&S BANK

HSBC

Royal Bank of Scotland

NatWest

LLOYDS BANK

HALIFAX

BANK OF SCOTLAND

creativevirtual
The science of conversation™

ROYAL AIR FORCE

CITY OF LONDON POLICE
National Policing in the Great Fire Plaza

NPCC
National Police Chief's Council

NATIONAL TRADING STANDARDS

cfas
Leaders in fraud prevention

VS VICTIM SUPPORT

EUROPOL EC3 | European Cybercrime Centre

ActionFraud
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre
www.actionfraud.police.uk

METROPOLITAN POLICE

eCrime Team
Protecting Consumers
Safeguarding Businesses

Ofcom

POST BANK

EUROPEAN POLICE

neighbourhood ALERT